

COFNOD PENDERFYNIADAU CYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADFYWIO A HAMDDEN

3^{YDD} AWST 2015

Swyddfa'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, Neuadd y Dref, Llanelli.

9.30am – 10.00am

YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL	Y PORTFFOLIO
Y Cyngorydd M. Gravell	Adfywio a Hamdden

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-

Mr. S. Jenkins	Rheolwr y Rhaglen Strategol Adfywio Ffisegol
Ms. T. Peregrine	Swyddog Prosiectau Adfywio Ffisegol
Mr. K. Thomas	Swyddog Gwasanaethau Democraidd.

DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Nid oedd dim buddiannau personol.

Ar ôl ystyried yr adroddiadau am yr eitemau isod, a chan roi sylw i farn yr Aelodau Lleol a'r rhai oedd a wnelont â'r materion, lle'r oedd hynny'n berthnasol, gwnaeth yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol y penderfyniadau canlynol:

Rhif yr Eitem	Y Pwnc / Penderfyniad	Gweithredu gan
1.	<p><u>COFNOD PENDERFYNIADAU</u></p> <p>PENDERFYNWYD Ilofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 15^{fed} Gorffennaf, 2015, gan ei fod yn gywir.</p>	K. Thomas – Swyddog Gwasanaethau Democraidd/ Prif Weithredwr
2.	<p><u>TIRWEDDU CYFFINIAU'R CEI YM MACHYNYS</u></p> <p>Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad am gynigion ynghylch bod yr Awdurdod yn gwneud gwaith tirweddu yng Nghyffiniau'r Cei ym Machynys yn unol â'r cytundeb cyfreithiol oedd wedi ei wneud gyda Charles Church ar 31^{ain} Mawrth 2008.</p> <p>Cyfeiriodd Rheolwr y Rhaglen Strategol Adfywio Ffisegol at yr adroddiad ac amlinellodd hanes y Cytundeb a'r trefniadau cyllido drwy Gyd-fenter Morlan Elli. Dywedodd fod caniatâd cynllunio (cais cynllunio S/19221) wedi ei roi yn 2009 ar gyfer y gwaith tirweddu ond bod nifer o newidiadau sylweddol wedi bod ers hynny, fel yr oedd wedi manylu arnynt yn yr adroddiad, a oedd yn golygu bod rheidrwydd ar yr Awdurdod i geisio diwygio amod 5 o'r caniatâd hwnnw i'w alluogi i gwblhau'r gwaith tirweddu ac i beidio â bod yn groes i'w Gytundeb cyfreithiol.</p> <p>Felly yr oedd yn cynnig bod yr Awdurdod, ar yr adeg briodol, yn cyflwyno cais cynllunio diwygiedig, yn cyflogi ymgynghorwyr proffesiynol, drwy Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd, i gyfnerthu'r cais cynllunio, y dyluniad, a'r tendr ar gyfer y gwaith, a hefyd yn penodi contractwr a ffefrir i ymgymryd â'r gwaith.</p> <p>O'i gymeradwyo byddai'r cynllun diwygiedig yn cael ei gyllido ag</p>	

**COFNOD PENDERFYNIADAU CYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELOD
O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADFYWIO A HAMDDEN**

3^{YDD} AWST 2015

Rhif yr Eitem	Y Pwnc / Penderfyniad	Gweithredu gan
	<p>adnoddau cyfalaf y Gyd-fenter bresennol, a byddai'n hoelio sylw ar gwblhau prosiect oedd yn addas i'r diben ac oedd hefyd yn lleihau'r gwaith cynnal a chadw er mwyn sicrhau bod y costau referniw yn y dyfodol cyn lleied â phosibl.</p> <p>PENDERFYNWYD bod yr Awdurdod:-</p> <p>2.1 yn llunio ac yn cyflwyno cynnig tirweddu diwygiedig er mwyn amrywio amod 5 o gais cynllunio S/19221 drwy Adran 73 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref.</p> <p>2.2 yn penodi ymgynghorwyr proffesiynol, drwy Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd, i grynhoi'r manylion angenrheidiol er mwyn cyfnerthu'r broses gynllunio, dylunio, tendro ac adeiladu.</p> <p>2.3 yn penodi contractwr a ffefrir ac yn gwneud y gwaith.</p>	<p>S. Jenkins - Rheolwr y Rhaglen Strategol Adfywio Ffisegol</p>

YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADFYWIO A HAMDDEN

Y DYDDIAD